# Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

## EOC(3)-04-08:-(p1): 13 Mawrth 2008

## Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio yng Nghymru

#### Ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad "Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio yng Nghymu"

#### Diben

Hysbysu'r Pwyllgor am ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r adroddiad a'i argymhellion.

#### Y Cefndir

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno gerbron Llywodraeth y Cynulliad ar 11 Chwefror. Roedd 12 o argymhellion yn yr adroddiad, ac fe'u hamlinellir isod.

#### Ymateb i'r argymhellion

| |
|---|
| **Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi rhaglen o arolygon hygyrchedd rheolaidd i nodi arfer da, i nodi lle mae angen gwella ac i alluogi monitro gwelliant o'r naill flwyddyn i'r llall.** |
| **Ymateb:** O dan Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006, cyflwynwyd dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i gynnal arolygon o fannau pleidleisio, a daeth y ddarpariaeth hon i rym ar 1 Ionawr 2007. Roedd gan yr awdurdodau 12 mis o'r dyddiad hwnnw i gynnal eu hadolygiadau cychwynnol, ac mae'n ofynnol iddynt gynnal adolygiadau pellach o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Mae gofyn iddynt hefyd geisio sicrhau bod pobl anabl yn gallu mynd i mewn i unrhyw fannau pleidleisio. Yn ôl pob tebyg, bydd yn rhaid i'r awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau i'r Comisiwn Etholiadol am y materion hyn, a hynny fel rhan o'i raglen safonau perfformiad.<br><br>At hynny, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu â Scope Cymru gyda golwg ar roi arian ar gyfer eu harolygon Etholiadau'n Eithrio, a bydd hefyd, drwy ei Grŵp Cynllunio Etholiadau yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o wneud yr arolwg yn fwy dibynadwy a dilys. |
| **Argymhelliad 2:** Dylai'r Comisiwn Etholiadol ymgorffori dimensiwn cydraddoldeb i bobl anabl mewn nifer o ddangosyddion perfformiad ar gyfer etholiadau a refferenda, fel a [sic] gynhwysir yn ymateb y Pwyllgor i ddogfen ymgynghori'r Comisiwn Etholiadol [Atodiad 3]. |
| **Ymateb:** Mater i'r Comisiwn Etholiadol yw hwn. |
| **Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog Swyddogion Canlyniadau'n gryf i sicrhau bod y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer mynediad corfforol ar gael ym mhob gorsaf bleidleisio, i'w gwneud mor hygyrch â phosibl. |
| **Ymateb:** Dylai hyn fod yn rhan o'r ddyletswydd y cyfeirir ati yn argymhelliad 1. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid er mwyn gwneud gwaith addasu ar gyfer etholiadau'r Cynulliad. At hynny, mae'r Grŵp Cynllunio Etholiadau wedi comisiynu ymgynghorydd i ystyried sut i weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys pennu targedau ar gyfer gorsafoedd pleidleisio sy'n hygyrch i bawb. Disgwylir y bydd yr adroddiad ar gael yn yr haf. |
| **Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i fanteisio'n fwy effeithiol ar yr adnoddau sydd eisoes yn bodoli yn eu sefydliadau. Dylid cynnwys staff sy'n arbenigo mewn cydraddoldeb i bobl anabl yn y broses cynllunio etholiadol, er enghraifft y rheiny sy'n gweithio mewn adrannau adnoddau dynol neu gynllunio. Dylid hefyd rhoi'r cyfle i staff anabl gynghori a gwneud awgrymiadau. |
| **Ymateb:** Mae hwn yn gynnig i'w groesawu ac yn un y byddwn, drwy'r Grŵp Cynllunio Etholiadau, yn annog yr awdurdodau lleol i'w weithredu. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cysylltiadau â grwpiau mynediad lleol, sefydliadau i bobl anabl a phobl anabl leol, ac archwilio ffyrdd y gellid eu cynnwys mewn sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth o anabledd a hyfforddiant cydraddoldeb anabledd ar gyfer holl staff yr awdurdodau lleol, gan sicrhau bod staff sydd a wnelo ag etholiadau'n ymwybodol o'r pethau penodol y mae angen iddynt" eu hystyried." |
| **Ymateb:** Yn ddiweddar, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi dod yn aelod o'r Grŵp Cynllunio Etholiadau. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'r cysylltiad hwn i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn gwybod am eu grwpiau mynediad lleol a'u bod yn ystyried sut orau i roi rhan iddynt yn eu trefniadau hyfforddi. |
| **Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau i sicrhau bod yr holl staff gorsafoedd pleidleisio'n gallu gwneud amgylchedd gorsaf bleidleisio mor hygyrch â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys gwybod sut i weithredu cyfarpar perthnasol yn effeithiol (er enghraifft, bythau y mae modd eu haddasu a rampiau dros dro), gwybod sut i osod goleuadau fel eu bod mor effeithiol â phosibl, a sut i osod cyfarpar a phapurau pleidleisio print bras yn y lleoliad gorau". " |
| **Ymateb:** Dylid cyfeirio'r argymhelliad hwn at y Comisiwn Etholiadol, gan mai ef sy'n rhoi canllawiau i Swyddogion Canlyniadau. Roedd ei ganllawiau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2007 yn cynnwys adran gynhwysfawr iawn am fynediad i orsafoedd pleidleisio. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyllid er mwyn hyfforddi staff ar gyfer etholiadau'r Cynulliad - ond nid yw'n gwneud hynny ar gyfer etholiadau eraill. |
| **Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i fanylu ar y camau sy'n cael eu cymryd i wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yn eu cynlluniau gweithredu cynllun cydraddoldeb i bobl anabl. |
| **Ymateb:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad, drwy'r Grŵp Cynllunio Etholiadau, yn cydweithio â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i symud yr argymhelliad hwn yn ei flaen. |
| **Argymhelliad 8:" "**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydlynu'r gwaith o gynhyrchu rhestr o gyfarwyddyd a chyngor sy'n bodoli ar gyfer staff etholiadau ar faterion cydraddoldeb a mynediad (gan gynnwys, er enghraifft, rhestr Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru o adeiladau hygyrch, a deunydd cyfarwyddyd y Comisiwn Etholiadol ar gydraddoldeb a mynediad). Dylid anfon y rhestr a chopïau o adnoddau allweddol at Swyddogion Canlyniadau a Chydlynwyr Mynediad awdurdodau lleol ar ddechrau pob proses cynllunio etholiadol. |
| **Ymateb:** Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu â'r Comisiwn Etholiadol am y mater hwn. Ni fyddai'n fuddiol i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi'r deunydd hwn ar wahân i ganllawiau'r Comisiwn. Byddwn yn ceisio sicrhau bod dolenni yn eu harweiniad hwy at ffynonellau perthnasol eraill o wybodaeth. |
| **Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol gydweithio i hybu eu hymrwymiad i alluogi pobl anabl a rhai â nam ar eu synhwyrau i bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio leol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Dylid rhoi gwybod yn well i bleidleiswyr anabl "a "rhai nad ydynt yn anabl am yr addasiadau sydd ar gael mewn gorsafoedd pleidleisio, ac am y materion y mae angen i staff etholiadol eu hystyried wrth ddewis man cyfarfod sy'n ganolog ac sy'n gorfforol hygyrc"h." |
| **Ymateb:** Drwy'r Grŵp Cynllunio Etholiadau, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod Swyddogion Canlyniadau, wrth iddynt ddosbarthu cardiau pleidleisio, yn rhoi gwybodaeth i etholwyr ynghylch pa mor hygyrch yw eu gorsaf bleidleisio leol. |
| **Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau lleol i hybu cyfleoedd swyddi i staff etholiadol yn fwy effeithiol ymhlith pobl anabl. |
| **Ymateb:** Mae swyddi parhaol sy'n dod yn wag yn bethau anghyffredin mewn adrannau gwasanaethau etholiadol yr awdurdodau lleol. Bydd yr un gofynion sy'n gysylltiedig â chyfle cyfartal yr un mor berthnasol iddynt hwy ag ar gyfer unrhyw swyddi gwag eraill a fydd gan yr awdurdod lleol. Byddai'n fwy buddiol pe bai Swyddogion Canlyniadau'n cael eu hannog i geisio recriwtio pobl anabl i fod yn aelodau o'u timau adeg etholiadau, yn enwedig felly fel clercod pleidleisio. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu â'r Comisiwn Etholiadol er mwyn awgrymu ei fod yn cynnwys y cynnig hwn yn ei ganllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau. |

| |
|---|
| **Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydlynu mecanwaith effeithiol ar gyfer rhannu arfer da rhwng rhanddeiliaid allweddol. |
| **Ymateb:** Caiff y mater hwn ei gyfeirio at y Grŵp Cynllunio Etholiadau er mwyn i'w aelodau ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o roi'r cynnig hwn ar waith. |
| **Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hybu'r ffaith bod grantiau ar gael ar gyfer cyfarpar a hyfforddiant etholiadol"." |
| **Ymateb:** Yn achos etholiadau'r Cynulliad, mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyllid ar gyfer cyfarpar etholiadol a hyfforddiant. Nid oes unrhyw dystiolaeth nad yw Swyddogion Canlyniadau'n gwybod am gyllid o'r fath nac unrhyw dystiolaeth ychwaith nad ydynt yn ei ddefnyddio. Nid yw'n briodol i Lywodraeth y Cynulliad roi cyllid ar gyfer etholiadau eraill. |

**Enw: Brian Gibbons AC**

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyfiawnder Cymdeithasol**

Swyddog Cyswllt: Frank Cuthbert, yr Is-adran Polisi  Llywod